**Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan:**
**www.nya.org.uk**

# POBL IFANC A CHYMDEITHAS

gan James Hemming PhD
Darlith Goffa Arthur Mellows 1962

Dro ar ôl tro mae'n rhaid i bob cymdeithas dderbyn effaith cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o bobl ifanc. Mae hyn yn gwneud lles i gymdeithas. Mae pobl ifanc yn holi, beirniadu a phrofi. Drwy'r fath broses mae rhagdybiaethau a gwerthoedd yn cael eu hysgwyd a'u procio, eu hadnewyddu neu eu gwrthod. Un o'r rhesymau paham nad yw 'Hitlers' y byd hwn yn parhau'n hir iawn yw oherwydd mai ychydig iawn o genedlaethau o bobl ifanc y maen nhw'n medru eu hoelio gyda'u systemau caeth. Ar ôl hynny, 'Y Sefydliad' ydyn nhw, sy'n dod yn destun sialens iach i'r grŵp o bobl ifanc. Mae egni creadigol a beirniadol dyn yn cael ei adnewyddu'n barhaus drwy ei bobl ifanc.

Er hynny, er bod pobl ifanc wastad wedi herio'r drefn sefydledig, ac wastad wedi bod yn dipyn o niwsans wrth wneud hynny, mae yna ffactorau newydd yn y sefyllfa sydd ohoni heddiw. Un ffactor yw'r ffaith bod y drefn sefydledig heddiw yn fwy tebyg i anrhefn sefydledig. Mae hyn yn gwneud pethau'n anodd iawn i bobl ifanc. Mae angen trefn y gellir ei hadnabod ar bobl ifanc; trefn y maen nhw'n medru ei phrofi a threfn y maen nhw'n medru profi eu hunain yn ei herbyn. Yn y gorffennol fe wnaethant ddal gafael ar syniadau a sefydliadau a oedd, iddynt hwy, yn ymddangos eu bod yn cynrychioli'r ffordd ymlaen i gymdeithas. Rhoddodd hyn gyfle iddynt wrthryfela mewn ffordd bwrpasol: fe wnaethant ymuno â rhywbeth neu'i gilydd yr oedd modd ymrwymo'n llwyr iddo, gyda brwdfrydedd. Drwy'r fath broses nid yn unig yr oeddent yn herio'r drefn sefydledig, ond daethant o hyd i bwrpas cydweithredol a oedd yn eu galluogi i symud, wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, i mewn i berthynas glos, gyfrifol gyda chymdeithas. Heddiw, nid yw'r hyn y maent yn ei weld o'u cwmpas yn 'hen drefn' sydd â gwell ffordd o fyw yn aros i wawrio, ond yn hytrach, cyfuniad cymysglyd iawn o syniadau a sefydliadau heb unrhyw fodd o ehangu, na chyfeiriad amlwg. Felly ceir yr ymdeimlad o anniddigrwydd, gwrthryfelwyr heb achos, gwŷr ifanc sy'n ddig.

Gwahaniaeth arall rhwng y presennol a'r gorffennol yw nad yw'r

pwynt o fod wedi cyrraedd mewn cymdeithas bellach wedi ei ddiffinio'n glir i bobl ifanc. Ar yr un adeg ag y maen nhw'n herio cymdeithas, mae pobl ifanc yn awyddus dros ben i brofi eu gwerth o fewn cymdeithas. Roedd cymdeithasau cyntefig yn llwyddo i gyfeirio egni ymosodol yr ifanc a chynnig iddynt y sicrwydd o 'gyrraedd' drwy'r seremoni dderbyn. Roedd hyn yn anodd a chaled – fel goroesi yn y jyngl ar eich pen eich hun, neu oddef curfa heb wingo. Ond roedd y paratoadau hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer bywyd fel oedolyn. Unwaith yr oedd y person ifanc wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant a llwyddo yn y prawf, yr oedd ef neu hi yn cael ei dderbyn/derbyn fel aelod llawn o gymdeithas oedolion. Yr oedd wedi 'cyrraedd'. Hanner canrif yn ôl yr oedd 'cyraeddiadau' yn parhau i gael eu diffinio'n glir: cwblhau prentisiaeth, cyrraedd oed arbennig, priodi ac yn y blaen. Heddiw mae'r 'cyraeddiadau' yn aneglur iawn. Felly mae pobl ifanc mewn sefyllfa ble maen nhw'n holi'n barhaol ble yn union y maen nhw.

Yn ogystal ag amau eu gwerth mewn cymdeithas, mae yna hefyd alw mawr amdanynt - yn fasnachol, a dyma yw'r trydydd gwahaniaeth. Mae yna lawer ohonynt; maent yn ennill llawer o arian; mae ganddynt swm eang i wario arnyn nhw eu hunain. Mae ffortiwn i'w wneud drwy greu a bodloni galw pobl ifanc. Felly maent mewn sefyllfa ble mae eu hangen, ond eto i gyd maent yn ansicr iawn ohonyn nhw eu hunain: sefyllfa sy'n peri dryswch mawr iddynt.

Gwahaniaeth arall rhwng y presennol a'r gorffennol yw bod pobl ifanc heddiw yn dalach, drymach, cryfach ac yn fwy ffit o lawer ac yn aeddfedu'n gorfforol yn gynharach nag erioed o'r blaen. Maent yn cynhyrchu mwy o egni na'r grŵp o bobl ifanc yr oedd eu tadau'n aelodau ohonynt. Felly mae yna filiwn neu fwy ohonynt yng nghymdeithas heddiw, ac, ar gyfartaledd, mae pob un ohonynt yn cynhyrchu mwy o egni fesul unigolyn nag yn flaenorol. Ar yr un pryd rydym yn eu hamgylchynu â dryswch o bob math, ac yn aml yn methu eu darparu ag ymdeimlad priodol o werth na sianelau priodol ar gyfer eu hegni.
Does rhyfedd ein bod mewn sefyllfa ffrwydrol na chwaith bod ffrwydradau o hwliganiaeth yn nodwedd gyffredin gynyddol ym mywyd ein cymdeithas.

I ddechrau rwyf wedi ceisio rhoi braslun o'r cefndir. Hoffwn nawr gyflwyno'r broblem o ddelio'n llwyddiannus a'n grŵp grymus o bobl ifanc yn y gymdeithas dan bedwar pennawd: yn gyntaf, brwydr pobl ifanc i feithrin aeddfedrwydd mewn byd dryslyd; yn ail, y gwrthdaro barn sy'n gwahanu'r ffordd nodweddiadol y mae oedolion yn meddwl o gymharu â phobl ifanc, bygythiad y person ifanc gwrthgymdeithasol; ac yn olaf, yr hyn gallwn ni ei wneud i helpu'n pobl ifanc i aeddfedu.

Un o gamargraffiadau'r gorffennol oedd ein bod yn tyfu i fyny, bwrw gwreiddiau, ac yn parhau fel hynny tan fod henaint yn dal i fyny â ni ymhen hir a hwyr a'n dirywio. Ni fu hi erioed fel hyn, ond roeddem ni'n ymddwyn a meddwl fel petai felly'r

oedd hi. Heddiw, rydym yn gwybod mai proses o newid ac addasu yw bywyd o'r dechrau i'r diwedd. Mae gan bob oes ei phroblemau bywyd ei hun i fynd i'r afael â hwy. Y tasgau mwyaf sy'n wynebu plentyn yw cerdded a siarad. Mae'n rhaid i ddyn neu fenyw sy'n 65 neu 70, ddysgu ymddeol. Y tasgau sy'n wynebu parau ifanc priod yw cyd-dynnu'n hapus yng nghwmni'i gilydd, gan addasu i safon is o fyw'n unigol, a sefydlu math newydd o berthynas gyda'u ffrindiau. Mae parau priod hŷn yn wynebu'r her o ddechrau eto mewn ffordd newydd ar ôl i'r plant adael y cartref, ac yn y blaen. Mae pob cyfnod mewn bywyd yn cyflwyno tasgau newydd sydd yn rhaid i ni ddelio â hwy a'u gorchfygu os ydym am barhau i dyfu a datblygu fel personoliaethau. Nid yw'r dasg o ddarganfod ein hunain, hunanfoddhad llwyr, byth yn cael ei chyflawni; dim ond rhoi golwg newydd ar wahanol gyfnodau yn ein bywyd.

Caiff llencyndod hefyd ei nodi gan dasgau sy'n nodweddiadol o fywyd – tasgau datblygu. Mae'n wahanol i weddill bywyd nid oherwydd bod pobl ifanc yn wahanol i'r gweddill ohonom ond oherwydd eu bod nhw wedi ymgolli yn eu tasgau datblygu eu hunain, sydd yn rhaid iddynt eu gorchfygu os ydynt am ddatblygu'n oedolion.

Oherwydd ei fod yn gam rhwng plentyndod ac oedolaeth, mae llencyndod yn gyfnod hanfodol dros ben o ran twf, sy'n pentyrru nifer fawr o dasgau datblygu ar y bobl ifanc; heblaw am hyn, yr un yw'r frwydr ddynol ag unrhyw gyfnod arall mewn bywyd. Mewn gwirionedd, os yw'n bywyd fel oedolyn yn ein taflu yn ôl i mewn i sefyllfa sy'n nodweddiadol o lencyndod, rydym yn debygol o ymateb fel person ifanc. Fe sylwais, er enghraifft, ar adeg pan oeddwn yn wynebu arholiad academaidd yn gymharol ddiweddar yn fy mywyd, roeddwn yr un mor nerfus, pryderus ac emosiynol ag y mae pobl ifanc sydd mewn sefyllfa debyg. Eto, does yna fawr o reswm i dybio bod pobl sy'n syrthio mewn cariad yn ddeugain oed yn ymddwyn yn ddoethach na'r rheini sy'n syrthio mewn cariad yn bedair ar ddeg.

Mae'n dilyn mai'r unig ffordd y gallwn obeithio deall pobl ifanc yw drwy ddangos cydymdeimlad wrth astudio'r tasgau sy'n eu hwynebu. Cafodd cryn dipyn o waith ei wneud eisoes ar hyn gan wahanol bobl. Dyma restr fer i chi ei hystyried.

Llencyndod yw'r amser pan fo'r emosiynau'n aeddfedu'n gyflym. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl ifanc addasu i deimlad bod bywyd yn fwy eang a dwys. Gall gorfoledd ac iselder fod yn llethol. Mae'n cymryd amser iddynt ddysgu byw gyda'r dryswch mewnol hwn a gwneud rhyw fath o synnwyr ohono.
Os mai hon fyddai'r unig dasg datblygu i wynebu pobl ifanc, mi fyddai ganddynt ddigon i'w cadw'n brysur. Ond un o nifer o dasgau anodd ydyw. Tasg arall yw'r angen i sefydlu annibyniaeth bersonol. Os yw unigolyn yn methu sefydlu ei annibyniaeth bersonol adeg ei lencyndod, mae'n wynebu'r risg o barhau'n bersonoliaeth ddibynnol am byth. O ganlyniad, mae gyriad y person ifanc  i sicrhau ei hun ynglŷn

â'i annibyniaeth yn cael ei ysgogi gan hunangynhaliaeth. Ac yn wir, dyna ydyw. Mae'r drydedd dasg yn deillio o'r ail. Ni allwch sefydlu'ch personoliaeth annibynnol eich hun a bod yn 'hollol ufudd' ar yr un pryd.

Felly mae'n rhaid, ac fe ddylai pobl ifanc, herio awdurdod. Ond mae her yn ennyn beirniadaeth, felly mae'r person ifanc yn ei ymdrech i dyfu i fyny, yn tueddu i'w ynysu ei hun mewn byd diflas lle "nad oes neb yn fy hoffi mwyach", "mae pawb yn fy erbyn", ac yn y blaen. Mae hyn yn ei wthio tuag at yr angen i ddod o hyd i ffynhonnell newydd o gysur a sicrwydd drwy ymaelodi â rhyw grŵp sydd y tu allan i'r cartref. Dyna paham y mae cyfeillgarwch mor bwysig ar yr adeg hon. Ond mae grŵp o ffrindiau yn creu her ynddo'i hun. Mae'n rhaid i berson ifanc ymhlith ei ffrindiau, brofi ei fod yn un ohonynt - sy'n ei gymell i gydymffurfio - ond mae'n rhaid iddo hefyd brofi ei hunaniaeth, fel rhywun sy'n werthfawr o ran ei hun. Mae hyn yn ei gymell i geisio gwneud ei farc fel unigolyn. Gall y fath ymdrech gael ei derbyn gan ei ffrindiau - sy'n rhagorol - neu ei gwrthod gan ei ffrindiau - sy'n niweidiol. Felly'r drydedd dasg mewn bywyd yw meistroli'r ddawn o sefydlu eich hun ymhlith eich cyfoedion. Efallai bod hynny'n swnio'n hawdd ond fe all fod yn hynod o anodd. Bu cyfran sylweddol o'r bobl unig yng nghymdeithas dan anfantais drwy gydol eu bywydau yn nhermau perthnasoedd personol, oherwydd eu bod nhw wedi methu â dysgu i ymgysylltu ag eraill mewn ffordd hapus a hamddenol yn ystod eu llencyndod.

Nid yn unig cyfeillgarwch fel y cyfryw sy'n creu sialens i bobl ifanc ond hefyd cyfeillgarwch gyda'r rhyw arall. O'r hyn a glywir, mae modd dychmygu bod cymdeithas pobl ifanc sydd ohoni heddiw wedi ei gwneud i fyny'n gyfan gwbl o ferchetwyr a nymffomaniaid. Mae hyn yn bell o'r gwir. Mae ymagwedd nodweddiadol y person ifanc tuag at aelod o'r rhyw arall a edmygir yn betrus ac ansicr. " A ydw i'n deilwng?" "A ydw i'n cymharu'n ffafriol? "A fyddaf yn gwybod beth i'w wneud?" Mae'r fath amheuon, nid sicrwydd eofn yn nodweddiadol iawn o'n pobl ifanc. Mae ymagwedd y naill at y llall, yn dyner, sensitif a rhamantus. Nid wyf yn awgrymu bod perthnasoedd rhyw heddiw yn gymharol hen ffasiwn, ond y tu ôl i'r arddangosiad allanol o hunanhyder a rhodres, mae yna lawer o chwilio calon a phryder, ofn ymddangos yn wael yn llygaid y cariad, a'r dyhead am y perthynas delfrydol. Rhaid i ni hefyd gofio nad yw pob person ifanc o bell ffordd yn cyrraedd y nod wrth ymdrechu i dderbyn y rhyw arall. Mae'r rhai sy'n cael eu gwrthod yn dioddef yn llym.

Mae'r broblem o ddygymod â'r rhyw arall yn perthyn yn agos i'r dasg o ddygymod â'u rhywioldeb eu hunain. Mae bechgyn dan bwysau corfforol yn nhermau gwrywdod o oedran ifanc; a merched dan bwysau emosiynol sy'n deillio'n rhannol o'u haeddfediad cynnar a theimladau sy'n aeddfedu'n gynnar, ac yn rhannol o ganlyniad i'r pwyslais y mae'r cyfryngau torfol yn ei roi ar ryw. Mi fyddaf yn dychwelyd i'r broblem o addasu i gariad a rhyw o'i safbwynt cymdeithasol, yn

ddiweddarach. Yma, y dymuniad yw ei grybwyll yn unig fel tasg yn natblygiad pobl ifanc, nad oes modd ei hosgoi.

Fe wna i grybwyll dwy dasg ddatblygiadol arall yn unig sy'n ymwneud â llencyndod, er byddai modd ymestyn y rhestr ymhellach. Mae yna'r angen i greu argraff yn nhermau llwyddiant. Mae angen i'r person ifanc ennill ymdeimlad o werth mewn perthynas â ffrindiau a chymdeithas. Os gwrthodir y cyfle iddo wneud hyn mewn ffordd sy'n ddefnyddiol a phriodol i'w bwerau, mi fydd yn troi at ryw ffurf ddiwerth o gydnabyddiaeth yn lle. Ond, ryw ffordd neu'i gilydd rhaid iddo wneud ei farc mewn ffurf y mae cymdeithas yn ei chydnabod. Yr unig eithriad yw'r person ifanc sydd â diddordeb personol dwys, sy'n rhoi boddhad iddo yn nhermau llwyddiant, a'r person ifanc sydd wedi rhoi i fyny ar unrhyw lwyddiant posib ac sy'n encilio i fyd ffantasi lle defnyddir breuddwydion am glod i wneud iawn am fethu mewn bywyd go iawn.

Yr olaf ar fy rhestr o dasgau sylfaenol yw'r angen i ddod i benderfyniad am werthoedd a fydd yn sail i lywio bywyd. Rwyf yn pwysleisio 'dod i benderfyniad'. Mae'r person ifanc sydd ond yn derbyn gwerthoedd rhywun arall, yn ildio. Ei dasg go iawn yw " rhoi cynnig ar bopeth" a "sefyll wrth" yr hyn y maen eu hystyried yn dda. Dewch i ni sylwi mai'r sefyllfa ymhlith pobl ifanc heddiw yw nid y ffaith fod gan rai werthoedd, ac nad oes gan eraill ddim - fel y mae rhai pobl yn ei gweld hi - ond bod gwahanol bobl ifanc yn dewis gwahanol werthoedd yng ngoleuni eu profiad. Er enghraifft, nid yw criw 'caled' o bobl ifanc heb werthoedd. Mae ganddynt werthoedd sydd wedi eu diffinio'n glir. Rhaid i chi ufuddhau i'ch arweinydd, difrïo'r heddlu, bod yn deyrngar y naill i'r llall ac yn y blaen. Efallai nad ydym yn cymeradwyo'r gwerthoedd, ond maen nhw yno. Hyd at lencyndod, mae'r plentyn yn fodlon cymryd gwerthoedd y cartref yn ganiataol, beth bynnag ydynt. Mae pobl ifanc yn creu'r angen i archwilio gwerthoedd y gymuned o'u hamgylch a thynnu allan eu gwerthoedd personol eu hunain. Dyna pam y mae pobl ifanc o gartrefi Cristnogol yn aml yn dyfod yn agnostig, pan fod plant o gartref agnostig yn dechrau mynychu'r eglwys.

Un o'r pethau sy'n ymddangos yr eiliad yr ydym yn ystyried tasgau bywyd pobl ifanc nad oes modd eu hosgoi, yw mai prin iawn y mae addysg uwchradd yn ymwybodol ohonynt. Y canlyniad yw bod pobl ifanc yn cael eu gorfodi i arwain bywyd dwbl. Mae'r ysgol yn hawlio cymaint o'u sylw, ond ychydig iawn o berthnasedd sydd ganddi i'w brwydr bersonol yn eu byd mewnol. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae'r bwlch rhwng bywyd ysgol a bywyd personol yn dyfnhau. Ail effaith yw bod yr ysgol yn chwarae rhan gymharol fach o ran helpu pobl ifanc gyda'u brwydr bersonol i dyfu i fyny. Mae hwn yn fwlch difrifol iawn yn ein system addysg. O ran paratoi plant ar gyfer bywyd, mae addysg fodern yn llai effeithlon o lawer na'r cyrsiau hyfforddi a ddarparwyd gan bobl gyntefig ar gyfer y rhai oedd yn cael eu derbyn.

Dewch i ni weld ble'r ydym wedi cyrraedd hyd yn hyn. Rwyf wedi awgrymu bod cefndir pobl ifanc heddiw yn hynod o ddryslyd ac anodd. Rwyf wedi amlygu mai'r hyn sy'n gwahanu llencyndod o bob cyfnod datblygu arall mewn bywyd yw'r ffaith bod yn rhaid i bobl ifanc ymdrin â, ac ymgolli mewn tasgau datblygu nad oedd modd eu hosgoi, fel dysgu i ddelio â theimladau a bod yn fwy ymwybodol ohonynt, sefydlu annibyniaeth bersonol, meistroli'r ddawn o gymdeithasu a chyfeillgarwch, dod i delerau â'r rhyw arall a rhywioldeb personol, profi eu hunain drwy lwyddiant, a sefydlu gwerthoedd sy'n sail i fywyd personol. Rwyf hefyd wedi dweud mai ychydig iawn o sylw a roddir gan addysg uwchradd i'r tasgau hyn ym mywyd pobl ifanc, felly mae byd ysgol a byd mewnol y bobl ifanc yn dueddol o ymrannu. Rwyf hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith mai ychydig iawn o gymorth addysgol y caiff pobl ifanc gyda'u hymdrech i dyfu i fyny fel unigolion, oherwydd y bwlch mewn addysg uwchradd.

Hoffwn nawr droi at agwedd wahanol iawn yn y berthynas rhwng pobl ifanc a chymdeithas; y bwlch yn yr agwedd rhwng y mwyafrif o oedolion a'r mwyafrif o bobl ifanc. Nid wyf yn dweud pob oedolyn a phob person ifanc, oherwydd mae yna eithriadau wrth gwrs. Ond mae ymchwil diweddar yn awgrymu fod yna fwlch helaeth o ran agwedd.

Nid oes neb i'w feio am y bwlch. Dyma ganlyniad y cyflymder y mae syniadau a chymdeithas yn gyffredinol wedi bod yn newid yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf. Ond, gan ei fod yno, mae angen i ni ei astudio. Beth yw ei brif nodweddion? Yn sgil nifer o drafodaethau grŵp gyda phobl ifanc yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rwyf o dipyn i beth wedi dod i rai casgliadau ynglŷn â hyn, a hoffwn eu rhannu gyda chi.

Un gwahaniaeth sy'n ymddangos i mi yw bod pobl ifanc heddiw yn ddiamynedd ynghylch y syniad y dylai byw gael ei ohirio tan ryw gyfnod amhendant yn y dyfodol. Maen nhw am fyw nawr. Yn fy nyddiau i, fe dderbyniwyd bod yn rhaid i chi wneud cryn dipyn o lafurio cyn i chi ddisgwyl cyrraedd man mewn bywyd ble gallech eistedd yn ôl, ymlacio a mwynhau byw. Felly, byth a hefyd roeddem ni'n dueddol o ohirio byw. Mae'r patrwm yr ydym yn ei gynnig i bobl ifanc yn parhau i ffafrio'r 'gohiriad' hwn. Mae'n ymddangos ein bod ni'n dweud wrth y plentyn wyth oed "Gweithia'n galed ac fe gei di le yn yr Ysgol Ramadeg" Mae'r plentyn llwyddiannus hwnnw, ar ôl ennill ei le yn clywed "Gweithia'n galed am y chwe blynedd nesaf ac fe gei di gyfle i fynd i'r brifysgol". Yr awgrym yn y brifysgol yw "Gweithia'n galed am y tair blynedd nesaf ac fe gei di radd dda a fydd yn sicrhau dy fod ti'n cael swydd dda" Ar ôl derbyn swydd dda, yr ymhlygiad yw "Gweithia'n galed ac fe gei di swyddi gwell a fydd yn y pen draw yn sicrhau fod gennyt bensiwn da erbyn dy fod yn ymddeol". Ymhen hir a hwyr, yn bump a thrigain oed rydych yn rhydd i ddechrau byw heb bwysau - os nad ydych eisoes wedi anghofio sut i wneud hynny, A, gyda llaw, mae nifer wedi.

Rwy'n gwybod fy mod i wedi bod yn gor-ddweud, ond nid cymaint â hynny.
Yr hyn yr wyf wedi bod yn ei ddisgrifio yw'r ras fawr, sy'n golygu yn ôl dehongliad ein pobl ifanc, peidio â chaniatáu amser i chi'ch hun i fyw tan eich bod yn rhy hen i fwynhau byw. Maen nhw'n brwydro yn erbyn hyn, hyd yn oed pan maen nhw eu hunain yn destun y fath agwedd, maent yn ei ystyried yn wallgof ac yn dweud hynny'n aml. Mae eu hagwedd yn ymddangos yn ddidoreth i nifer o oedolion. Ond nid ydw i'n barod i ddweud bod oedolion yn iawn a phobl ifanc yn anghywir. Rwy'n dueddol o feddwl bod pobl yn byw cymaint yn y dyfodol nad ydynt yn medru mwynhau'r presennol yn llwyr. Mae pobl ifanc am eu gwefrau yn awr; maent yn ein hystyried ni yn 'sgwâr' oherwydd ein bod ni'n ymddangos ein bod yn meddwl gormod am yfory, ein bod wedi colli'r cyfleoedd godidog i fyw heddiw. Ond pwy bynnag sy'n iawn, a phwy bynnag sy'n anghywir, mae'r gwahanol farn am fyw nawr, neu'n ddiweddarach yn ymddangos i mi fel un o'r bylchau yn y ddealltwriaeth rhwng y cenedlaethau.

Mae un arall a chyswllt agos iawn iddo. Mae ieuenctid heddiw yn credu'n ddefosiynol mewn hunangyflawniad o'i gymharu â byw'r disgwyliadau sydd gan rywun arall ar eich cyfer. Does dim yn fwy tebygol o yrru merch ifanc yn wallgof na chyngor gan ei mam i beidio â gwneud rhywbeth oherwydd yr hyn y byddai'r cymdogion yn ei ddweud. Mi fydd bachgen ifanc yn cael ei gythruddo yn yr un ffordd os yw ei dad yn dweud wrtho am " beidio ag edrych fel merch ac am dorri ei wallt". Rwy'n dyfynnu. Os yw'r tad yn dilyn hyn drwy gyfeirio at ei hen gatrawd, ac y byddai cyfnod yn y Lluoedd yn gwneud lles iddo, mae e wedi llwyddo i wneud cymaint ag sy'n bosib i'w wneud mewn tair neu bedair brawddeg, i greu hollt pendant rhwng y cenedlaethau. Gall neb ddweud â chyfiawnder bod pobl Ifanc fodern yn llac o ran ymddangosiad na'n ddiog o ran eu hagwedd at fywyd. Maent yn rhoi sylw diddiwedd i fod yn smart yn eu termau nhw, gan wneud ymdrech sylweddol pan fo'u brwdfrydedd yn cael ei gyffroi. Ond nid ydynt yn barod i ddawnsio'n ufudd i fiwsig oedolion. Maent yn honni fod ganddynt hawl i fod yn 'nhw eu hunain' cyhyd â'u bod nhw ddim yn niweidio unrhyw un arall. Yn ôl oedolion, dylid ystyried hyn, yn gyffredinol, gyda rhywfaint o ddrwgdybiaeth, neu, beth bynnag, ddangos i'r bobl ifanc fod yna elfen o ddrwgdybiaeth.

Mae agwedd y ddwy genhedlaeth at grefydd, gryn dipyn yn wahanol. Mae pobl ifanc heddiw yn hynod o gadarnhaol. Maen nhw o'r farn - fel y dywedais eisoes – bod yn rhaid byw bywyd. Mae llawer o grefyddau cyfundrefnol yn ymddangos fel pe baent yn hepgor bywyd. Dyma'r ddelwedd y mae'r eglwys yn ei bortreadu iddynt. Ar y llaw arall mae gan nifer o bobl ifanc ddiddordeb brwd mewn crefydd ar yr amod nad ydyw ynghlwm â chredoau sy'n hepgor bywyd, lle mae nifer o oedolion yn hollol ddifater. Felly yma hefyd, does fawr o dir cyffredin.

Mae yna fyd o wahaniaeth rhwng barn y cenedlaethau ynglŷn â sut i fwynhau eich hun. Mae pobl ifanc wrth eu bodd â gornestau personol dwys a sgwrs bryfoclyd; mae oedolion yn eu hosgoi. Mae sgyrsiau oedolion yn cadw draw rhag pynciau 'dwfn' er mwyn osgoi ymdeimlad o gywilydd, neu gyffroi'r emosiynau. Mae pobl ifanc yn fodlon trafod unrhyw beth. Adeg trafodaeth grŵp diweddar, fe wnaeth person ifanc grybwyll pa mor ddiflas oedd partïon ei rieni i gymharu â'i bartïon ef. Meddai, " Dydyn nhw byth yn agosáu at ei gilydd" esboniodd - a doedd e ddim yn golygu'n gorfforol. Roedd e'n teimlo bod ansawdd cyfwynebiad, person wrth berson, yn ddiflas a merfaidd o gymharu â chyfwynebiad ymhlith pobl ifanc. Nid oedd yn datgan hyn yn feirniadol - mae'r bachgen ar delerau rhagorol â'i deulu - cafodd ei ddatgan fel ffaith.

Y gwahaniaeth olaf yn agweddau'r cenedlaethau yr wyf am ei grybwyll yw'r ehangaf o'r cyfan - yr agwedd tuag at ryw a'r berthynas rhwng y rhywiau. Yn y cyfnod hwn, sy'n gymharol benrhydd, mae'n naturiol bod y rheini'n pryderu; mewn cyferbyniad â hyn, mae pobl ifanc fodern yn hyderus o'u gallu i ofalu am eu hunain a'i gilydd. A rhaid cyfaddef, serch yr holl ryddid, ychydig iawn sy'n mynd i drwbl.

Rwy'n meddwl mai'r hyn y dylem ni ddwyn i gof, yw bod swildod wedi cilio yn ystod y chwarter canrif diwethaf. Ac eithrio Sbaen ac ychydig o leoedd eraill, caiff ei gymryd yn ganiataol heddiw ein bod ni'n dadwisgo bron yn gyfan gwbl ar y traethau er mwyn manteisio'n llwyr ar yr haul a'r dŵr. Rydym erbyn hyn yn ei chymryd hi'n ganiataol bod y pleser o ddefnyddio'r corff yn llesol ac yn dda. Yn ystod yr un cyfnod mae dulliau atal cenhedlu yn cael eu derbyn mewn priodas gan fwyafrif y boblogaeth. Yn ystod yr un cyfnod eto, mae ysgariad yn cael ei dderbyn yn gymdeithasol. Felly, p'un ai yr ydym yn cytuno â'r newidiadau neu beidio, mae rhyw o fewn cymdeithas wedi cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o swildod a thuag at ryddfreiniad yn ystod ein hoes. Ni all y fath newidiadau ddigwydd heb gael effaith rhyddhaol sy'n lledaenu y tu hwnt i'r newidiadau eu hunain. Mae'r bobl ifanc wedi tyfu i fyny yn yr awyrgylch hwn; maen nhw'n gwybod beth yw beth. Maent yn ystyried agwedd ofalus y genhedlaeth hŷn fel ymdrech i droi'r cloc yn ôl.

Mi fyddwn hyd yn oed yn fodlon mentro ymhellach. Mae rhai pobl ifanc yn ystyried y genhedlaeth hŷn fel y genhedlaeth sydd ag obsesiwn â rhyw.
Fe wnaeth un bachgen gwyno nad oedd ei dad yn medru rhoi'r gorau i feddwl am ryw. Dywedodd un ferch am ei chywilydd wrth i'w thad ddod i mewn i'r ystafell ble'r oedd hi'n eistedd o flaen y tân gyda'i chariad, a throi'r golau ymlaen. "Dim ond siarad oeddem ni" cwynodd yn gynddeiriog, "ac roedd rhaid iddo wneud hynny".

Rwy'n ymwybodol iawn bod yna elfen o ddiffyg cyfrifoldeb rhywiol a gwylltineb cythryblus ymhlith pobl ifanc heddiw. Mi fydd gen i fwy i ddweud am hyn mewn munud. Ond

hefyd, ac yr un mor amlwg â'r gwylltineb, mae yna safonau newydd sy'n ymwneud â pherthnasau rhywiol yn cynyddu ymhlith pobl ifanc. Mae'r rhain yn wahanol - tipyn llai mursennaidd na chynt - ond nid, ddywedwn i, yn llai cyfrifol. Mae parch tuag at y naill a'r llall fel pobl, ac ystyriaeth tuag at les y naill a'r llall, a delfrydiaeth realistig ynglŷn â'r hyn y mae perthynas sy'n ymwneud â chariad yn ei olygu, yn cymryd lle'r rheini a oedd yn datgan 'ni chewch wneud hyn ar llall', 'slawer dydd. Rwyf o'r farn, y bydd y gwerthoedd newydd hyn o bosib yn arwain at fywyd teuluol sy'n hapusach a chyfoethocach na gwerthoedd y mursendod a aeth o'u blaen. Beth bynnag yw ein barn am hyn, mae'n ffaith bod nifer o bobl ifanc yn ystyried ein bod ni, y genhedlaeth hŷn, yn rhy gynhyrfus o lawer ynglŷn â rhyw. Maen nhw'n meddwl bod ein hamheuon yn dra erchyll a'n pryderon yn rhy ddwys.

Y pwynt i'w sylwi arno yma yw; drwy gael cyn lleied o hyder yn eu gwerthoedd a'u synnwyr cyffredin, fe allwn ni eu cythruddo cymaint, eu bod nhw'n ymddwyn yn fyrbwyll fel modd o wrthryfela. Rwy'n edmygus iawn o ddoethineb pobl ifanc sydd yn gwybod eu bod nhw'n cael eu parchu a'u trystio.

Rwyf yn ystyried y syniadau cyffredinol hyn yr wyf wedi bod yn eu trafod ynghylch pobl ifanc heddiw - syniadau ynglŷn â byw yn awr, cyflawniad personol, cyfwynebiad llwyr ac agored person wrth berson, crefydd a rhyw - fel elfennau o effaith adeiladol bywiogrwydd pobl ifanc ar feddyliau traddodiadol. Nid wyf yn golygu bod y bobl ifanc yn rhoi cychwyn ar yr holl syniadau hyn ond maent yn cydio ynddynt ac yn eu hymgorffori i'w ffordd o fyw a meddwl ac felly'n paratoi ar gyfer lledaenu'r fath syniadau drwy gymdeithas. Rwy'n meddwl y byddem ni'r genhedlaeth hŷn yn ddoeth i fynd i'r afael â'r syniadau hyn i weld os allwn adfywio cynnwys ein meddyliau drwy gysylltu â hwy. Wrth gwrs, nid wyf yn golygu y dylem ni dderbyn y syniadau hyn heb feirniadaeth, ond fe ddylem eu cymryd o ddifri, eu harchwilio'n oddefgar, nid yn unig oherwydd eu bod nhw'n arwyddion i'r dyfodol, ond oherwydd mai dim ond trwy rannu meddyliau pobl ifanc y gallwn sefydlu perthnasoedd cydweithredol hapus gyda hwy. Mae nifer o athrawon a rhieni yn gwybod bod hyn yn wir ac yn ei gymhwyso wrth ddelio â phobl ifanc sy'n fanteisiol iawn i'r ddwy ochr. I ddyfynnu merch: "Rydw i a'm rhieni yn datrys pethau gyda'n gilydd. Does yna ddim byd sy'n ein hachosi i ffraeo - braidd byth" . Neu fachgen: "Rwy'n gallu trafod unrhyw beth gyda'm rhieni. Rwyf wastad wedi." Ond yn fy mhrofiad i mae'r berthynas adeiladol yn parhau i fod yn gymharol anghyffredin. Y sefyllfa fwyaf arferol rhwng y cenedlaethau yw goddefgarwch heb lawer o gyfathrebu a chryn dipyn o bwysau, neu anghytundeb hollol agored. Mae'r bobl ifanc sydd gennyf mewn golwg wrth amlygu'r agweddau hyn sy'n gwrthdaro, yn gydweithredol a chyfrifol yn y bôn, waeth mor eofn ac anodd y maen nhw'n ymddangos ar adegau. Y nhw yw'n cynghreiriaid wrth greu cymdeithas hapus, bwrpasol; sef ein gwaith ni fel oedolion. A dweud y gwir, maent yn

well cynghreiriaid nag y mae rhai pobl yn ei feddwl - cyhyd ag ein bod ni yn eu cydnabod fel cynghreiriaid ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad. Yn erbyn y grŵp hwn o bobl ifanc sy'n mynegi'u barn yn adeiladol, mae gennym grŵp anodd iawn o bobl ifanc gwrthgymdeithasol - y tramgwyddwyr gwirioneddol a'r rheini sydd â photensial i fod yn dramgwyddwyr. Beth amdanynt hwy?

Ar hyn o bryd mae'r grŵp hwn yn destun cryn dipyn o astudiaeth : Cynhadledd ar ôl cynhadledd; llyfr ar ôl llyfr. Gorau oll yw hyn. Rwyf hefyd yn meddwl ei fod ychydig yn rhyfedd. Fel y dywedodd un o'n gwyddonwyr blaenllaw yn ddiweddar, os ydych allan mewn storm does yna ddim angen i chi ddefnyddio ymchwil gwyddonol i brofi ei bod hi'n bwrw glaw. Yn yr un modd, does dim angen i ddyn chwilio'r mân bethau sy'n achosi ymddygiad tramgwyddus tan fod dyn wedi cael gwared ar y rhai amlwg. Yn ein cymdeithas mae yna achos amlwg o dramgwyddo sy'n effeithio ar o leiaf 50% o'n cymuned - gwadu gwerth personol.

Gwyddwn erbyn hyn bod y sylfeini dwbl ar gyfer ymdeimlad o werth personol yn ymwneud â gwybod eich bod yn cael eich caru a'ch gwerthfawrogi yn nhermau llwyddiant. Nid wyf am ddelio â'r cyntaf mewn manylder. Rydym ni oll yn gwybod ei fod yn hanfodol bwysig. Fe wna i ei adael felly, a symud ymlaen i'r ail - ymdeimlad o lwyddiant. Mae ein cymdeithas yn dyfod yn fwyfwy cystadleuol. O wyth oed, mae plant yn agored i gael eu dethol yn 'alluog', 'cymhedrol' a 'gwan' . Mae cryn dipyn o'r system addysg, ac ar ei hôl, y system gymdeithasol yn hynod o effeithlon o ran sefydlu ein bod yn ystyried y rhai llai academaidd yn ddosbarthiadau is. Yn lle pasio dros 90% o'r boblogaeth fel y gwnaed mewn cymdeithasau cyntefig, mae ein system dderbyn ni yn gwrthod o leiaf 50%. Gallaf ddychmygu nad oes yr un ohonom ni yn yr ystafell hon wedi profi'r fath wrthodiad yn ei ffurf fwyaf llym. Ni yw'r rhai lwcus.

Dychmygwch yn lle, mai chi yw Johnnie Smith. Nid ydych yn ddigon da, a phrin yw eich gobaith na'ch sicrwydd o lwyddo; nid ydych ychwaith yn ddigon gwael i dderbyn y gofal arbennig sy'n cael ei ddarparu'n aml erbyn hyn ar gyfer y plant llai galluog. Yn hytrach, fe gewch eich gadael i nofio neu suddo rywle yn y canol, yn aml mewn dosbarthiadau sydd dan eu sang, ac yng ngofal athrawon blinedig, yn dilyn cwricwlwm anaddas sydd â fawr o ystyr i chi, ac sy'n cynnig fawr o ddim, ond methiant ac oferedd. Mae Johnnie Smith sydd yn cael ei osod yn yr un sefyllfa flwyddyn ar ôl blwyddyn yn darganfod nad yw'r hyn sydd ganddo i'w gynnig fawr o werth i unrhyw un, o gymharu â'r hyn sydd gan y rhai disglair i'w gynnig, gan nad oes ganddo'r gallu i ymateb yn briodol i'r hyn y mae cymdeithas yn ei werthfawrogi - y tasgau sydd o'i flaen yn yr ystafell ddosbarth. Yn ddwfn oddi mewn, mae Johnnie yn ymgolli yn y syniad ei fod yn hollol israddol. Ond gyda threigl amser, mae Johnnie'n tyfu o ran maint a nerth. Yna, mae'n darganfod fod ganddo rywbeth sydd o leiaf yn denu sylw cymdeithas - ei nerth, ac ar

hynny, mae'n dechrau addoli trais sydd ar yr un pryd yn rhoi ymdeimlad o bwysigrwydd iddo, a'i ganiatáu i waredu'r rhwystredigaethau a fu'n crynhoi dros y blynyddoedd.

Ni ydym wedi colli Johnnie eto. Beth petai, er gwaetha'r holl rwystredigaethau a osodwyd arno, yn meithrin un neu ddwy berthynas dda gydag oedolion, byddai modd ei achub o hyd. Ond ar y llaw arall beth os nad yw Johnnie ar delerau da â'i rieni erbyn ei fod yn cyrraedd llencyndod, a beth os yw ei athrawon dan ormod o bwysau gwaith ac yn rhy flinedig i roi'r help a'r anogaeth bersonol, barhaus sydd ei angen arno; pa ddewis sydd ganddo ond troi yn anobeithiol at y sicrwydd olaf a roddir iddo gan y criw gwrthgymdeithasol?  Mae miloedd o fechgyn yn cael eu gorfodi i droi at y fath benderfyniad anobeithiol hwn bob blwyddyn, ac o'm safbwynt i, fe ddywedaf "onid am y cyfleoedd a gefais yn fy amgylchiadau i, pwy a ŵyr, ai dyma fi?". Fe ddylem ni gofio ei bod hi'n hollol amhosib teimlo'n gyfrifol dan amgylchiadau lle nad ydym hefyd yn teimlo o werth – bod yna ran i ni. I'r graddau hynny, rydym yn gwrthod ymdeimlad o werth a chynhwysiad i nifer o bobl ifanc; rydym yn creu cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o blant sy'n dramgwyddwyr. Tan fod modd mynd i'r afael â'r gwendidau amlwg hyn yn ein cymdeithas, ni all unrhyw Gynadleddau, ymchwiliadau, nac Adrannau Troseddeg Prifysgolion - waeth pa mor rhagorol ydynt - effeithio llawer ar y broblem ddi-baid, gynyddol a gyflwynir gan y Johnnie Smiths gwrthgymdeithasol yn ein cymdeithas.

Beth am Jane Smith? Yn yr un ffordd ag y mae Johnnie yn dyfod yn fodolaeth ystyrlon drwy ddatblygu cyhyrau, felly y mae Jane hefyd yn dyfod yn fodolaeth newydd drwy ddatblygu atyniad rhywiol. Yn union fel y mae Johnnie yn gyfrifol am seilio'i holl obeithion am fri personol ar drais, felly y mae Jane yn gyfrifol am seilio'i holl obeithion ar ryw. Ni cheir hyd i'r llancesi bach hyn ymhlith y bobl ifanc mwy llwyddiannus yn ein hysgolion uwchradd, ond yn hytrach ymhlith y llai llwyddiannus. Mae gan nifer o'r llancesi bach ddigon o synnwyr a gallu i gadw allan o drafferth ddifrifol, ond mae eu hedmygwyr aflwyddiannus yn hynod o fregus. Yn gorfforol, nid ydynt yn ddeniadol iawn, ond yn sgil gwrthodiad, maent wedi cael eu gorfodi i werthfawrogi rhyw. Maent yn ceisio unrhyw fachgen neu ddyn ac yna dal gafael arno'n llym. Mae merched o'r fath yn ddiymadferth o flaen unrhyw wryw sydd yn dangos unrhyw fath o anwyldeb tuag atynt. Tan ein bod yn rhoi naill ai modd o hunanhyder neu gyfarwyddyd trwyadl ynghylch dulliau atal cenhedlu i ferched o'r fath, mae beichiogrwydd ymhlith pobl ifanc yn debygol o gynyddu. Yr hyn sydd ei angen fwyaf ar y merched yw ffynhonnell arall o hunanhyder. Gan fod yna ddiffyg hunanhyder, rwy'n meddwl eu bod nhw'n cael eu gwthio i arbrofi'n rhywiol gan awydd anymwybodol y daw mamolaeth ag ymdeimlad o werth. Nid awydd rhywiol sy'n eu harwain i drafferth ond yr hyn sydd ynddynt fel menywod – a'u calonnau newynog.

Hoffwn eich gwahodd i wahaniaethu rhwng y grŵp cyntaf o bobl ifanc yr oeddwn yn sôn amdanynt - y rheini sydd â gogwydd cymdeithasol ond sy'n ein herio mewn sawl ffordd - a'r grŵp arall yr wyf newydd eu crybwyll: y bobl ifanc sy'n teimlo eu bod nhw wedi cael eu gwrthod gan gymdeithas ac yn troi at drais neu ryw am gysur. Mae'n ymddangos i mi fod y grwpiau hyn yn ddryslyd iawn a bod yr hyn yr ydym yn ei feddwl am bobl ifanc yn y gymdeithas yn aneglur ar adegau oherwydd y ffordd y maen nhw. Mae'r ffaith bod pobl ifanc yn herio, yn dda, iddyn nhw ac i ni; nid yw'r ffaith eu bod nhw'n teimlo diffyg gwerthfawrogiad, a gwrthodiad, yn gwneud lles i neb.

Beth allwn ni, fel oedolion cyfrifol, ei wneud i helpu pobl ifanc dyfu'n bersonoliaethau aeddfed? Mewn termau ehangach maent wedi rhoi arwydd pendant o'r ffordd y gallwn ni eu helpu. Nid ydynt am ein clywed yn pregethu, ac ni fyddant yn derbyn unrhyw fodd o awdurdod, ond maent yn gwerthfawrogi a deall arweiniad. Gofynnwyd i sampl o dros 5,000 o bobl ifanc a hoffent drafod eu problemau gydag oedolion. Fe wnaeth naw deg y cant ateb yn gadarnhaol. A dweud y gwir maent yn aros am ein cymorth, ond ni allant, yn natur y sefyllfa, dderbyn yr arweiniad sydd angen arnynt, os yw'n cael ei gynnig mewn ffurf sydd yn eu barn nhw yn bygwth eu hymdrech am hunanbenderfyniad. Maent am ein cymorth yn ystod eu brwydr, nid 'glasbrint' gennym ni, yn datgan sut y dylent fyw eu bywydau. Cofiwch fod eu hangen i ymsefydlu eu hunain fel personoliaethau annibynnol yn ystod llencyndod yn ein hepgor rhag dweud wrthynt. Dyma ble mai cyngor da ei fwriad yn methu. Mae rhieni'n cwyno "Nid yw hi'n gwrando" Mae'r un ferch yn ei thro yn dweud  "Maen nhw'n gwrthod gwrando arna i". Mae'r sefyllfa ddiddatrys yn golygu diwedd i unrhyw obaith am arweiniad derbyniol.

Ein man cychwyn felly yw mynd i mewn i fyd y bobl ifanc eu hunain, mewn ffordd gydymdeimladol. Mae'n rhaid i ni sylweddoli nad yw hi'n hawdd aeddfedu mewn cyfnod sy'n ddryslyd ac yn ein gosod dan bwysau sylweddol. Rhaid i ni hefyd ddeall natur tasgau pobl ifanc, er mwyn gwerthfawrogi mai'r diddordebau mwyaf diddorol ym mywyd pobl ifanc yw'r frwydr am annibyniaeth, yr ymdrech i sefydlu a chadw ffrindiau newydd, creu argraff ddigonol ar eu grŵp eu hunain, yr awydd i lwyddo wrth greu perthynas gyda'r rhyw arall, yr ysgogiad i brofi eu hunain drwy lwyddiant sy'n cael ei gydnabod, a'r ymdrech i greu gwerthoedd a safonau sydd angen arnynt i fyw. Os yw'r person ifanc yn medru'n cydnabod fel pobl a allai eu helpu i orchfygu'r tasgau hyn mewn bywyd, yna mi fydd ef neu hi yn troi'n awyddus atom am gymorth, anogaeth ac arweiniad.

Ar ôl pennu'r agwedd sy'n caniatáu cyfathrebu defnyddiol rhwng y cenedlaethau, mae'n rhaid i ni ddarparu'r cyfle i drafod. Dyma dasg ar gyfer y cartref, yr ysgol a chlybiau. Dywedodd mam sy'n ymddangos ei bod hi'n dod ymlaen yn dda gyda'i phlant, sydd hefyd yn bobl ifanc, " Os oes un ohonynt yn ymddangos eu

bod nhw am siarad am rywbeth, rwy'n gadael popeth yn y man, ac yn gwneud hynny. Os na chymerwch chi'r cyfle ar y pryd, mae'n rhy hwyr." Mewn unrhyw ysgol uwchradd gyffredin, ar unrhyw ddiwrnod cyffredin, mae'n debygol bod yna ddeg neu ugain o blant sydd yn ysu am gydymdeimlad ac arweiniad oedolyn. Mae angen arnynt athro cyfeillgar, amser i siarad, a man lle mae modd siarad yn breifat. Ni allwch ddisgwyl i ferch neu fachgen sydd â phroblem bersonol ddifrifol drefnu apwyntiad. Yn aml, y plant sydd mewn trafferthion go iawn yw'r olaf i ofyn am yr help sydd ei angen arnynt. Dylid cyflwyno i'r system uwchradd, rywbeth sydd yn fwy cadarn o lawer na sgwrs gyda'r pennaeth, pan fo'r pennaeth ar gael. Ar hyn o bryd nid yw'r ysgolion wedi cael eu cynllunio na'u staffio gyda golwg ar y ffaith bod pobl ifanc angen cyfleoedd am gymorth personol preifat pan fo pethau'n mynd yn drech na nhw. Mae creu'r fath gyfleusterau yn dda yn nhermau economeg addysgol. Ni allwch ddisgwyl unrhyw waith defnyddiol gan berson ifanc sy'n brwydro iselder ar ei ben ei hun, poen cyfeillgarwch sydd wedi rhwygo, neu ymyrraeth o ganlyniad i anghytundeb llwyr gyda thad ystyfnig - i grybwyll ond tair ffynhonnell o densiwn a phryder yn unig.

Hefyd, mae modd delio â phroblemau pobl ifanc mewn grwpiau. Cyn belled ag y bo'r athro neu'r arweinydd ieuenctid sy'n cymryd y grŵp, yn dangos cydymdeimlad, goddefgarwch a bod ganddo hiwmor da, mi fydd pobl ifanc heb os, yn datgelu pob math o broblemau cyffredinol sy'n ymwneud â phobl ifanc. Mae trafodaethau o'r fath yn werthfawr iawn i'r bobl ifanc a'r oedolion dan sylw. Dywed Prifathrawes sy'n caniatáu amser ar gyfer trafodaethau cyffredinol ymhlith ei merched sy'n bedair ar ddeg a phymtheg oed, fod rhai aelodau o'i staff yn amheus iawn o'r syniad ar y dechrau, ond erbyn hyn maen nhw wedi eu hargyhoeddi'n llwyr oherwydd bod y trafodaethau wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o fywyd eu disgyblion ac felly gwella'r berthynas a'r gwaith mewn gwersi eraill.

Wrth gwrs, ni ddylid amlygu'r peth yn ormodol gan greu pobl ifanc hunan-ymwybodol. Ni fyddai sesiwn sy'n dwyn yr enw "Problemau Personol" yn ysgogi unrhyw drafodaeth. Oni fyddai "Problemau Modern" sy'n delio â phopeth o dagfeydd ar y ffordd i addysg rhyw yn hwyluso'r drafodaeth?. Mae modd cynnal trafodaeth ragorol dan yr ambarél Addysg Grefyddol neu Wyddor Cartref. Y peth hanfodol yw creu cyfleoedd ar gyfer trafod y problemau a geir wrth dyfu i fyny yn y byd modern sydd ohoni. Mae'n ymddangos bod trafodaethau sy'n cael eu cynnal mewn clybiau ieuenctid yn fwy cynhyrchiol o lawer na thrafodaethau sy'n cael eu trefnu ar thema arbennig.

Rwy'n awgrymu y dylai twf personol pobl ifanc gael ei ystyried yn ddyfnach fyth yn y cwricwlwm. Mae Saesneg, Hanes a Daearyddiaeth yn cynnig cyfleoedd da iawn ar gyfer ymagweddau a fydd yn galluogi pobl ifanc i ennill gwell dealltwriaeth o'u byd, yn ogystal â gwell dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain. I wneud hyn,

ni ddylid gostwng maint y gwaith cadarn sy'n cael ei wneud ond cynyddu'n sylweddol y cymhelliad i weithio'n galed. Er enghraifft, profwyd yn helaeth bod cyffroi teimladau pobl ifanc, yn arwain at waith ysgrifenedig sy'n well o lawer na gwaith y rheini a gafodd gyfarwyddyd yn unig. Gall gwyddoniaeth hefyd gael ei wareiddio drwy amlygu mai gwyddoniaeth yw cyflawniad cronedig unigolion a wnaeth yn eu tro frwydro i ehangu ffiniau anwybodaeth. Rydym yn clywed cryn dipyn o ddydd i ddydd ar lefel Prifysgol, am athroniaeth gwyddoniaeth; yr hyn sydd ei angen yn ein hysgolion uwchradd yn nhermau gwyddoniaeth a mathemateg yw mwy o ramant. Os ceisiwn addysgu pobl ifanc yn dda, er mwyn iddynt ddysgu a thyfu, mae'n rhaid i ni gyrraedd eu calonnau a'u dychymyg yn ogystal â'u deallusrwydd.

Yn olaf, fe allwn helpu pobl ifanc i aeddfedu drwy eu darparu â chyfleoedd i wneud cyfraniad i fywyd eu cymdogaeth. Maent yn ysu i fod o ddefnydd. Ond, yma eto, ni allwn bentyrru'r gwaith arnynt; mae'n rhaid i ni gyffwrdd â'u delfrydiaeth, herio'u dewrder. Mae'n drist ofnadwy bod gwŷr ifanc yn cael eu gorfodi i gymryd risgiau artiffisial - fel cyrraedd can milltir yr awr ar feic modur - oherwydd nad yw cymdeithas yn darparu'r math o antur a sialens y mae'r ifanc yn ei fwynhau.

Wrth gwrs, y rhai colledig - y rheini sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar drais neu ryw sydd wir angen ein help; ond iddynt hwy, yr ateb terfynol yw ataliad. Mae'n rhaid i ni ddarparu mwy o athrawon a gwell cyfleoedd ar gyfer ein plant sydd â diffyg gallu a chefnogaeth, er mwyn eu hatal rhag tyfu i fyny'n elynion yn erbyn yr hyn yr ydym yn ei werthfawrogi yn ein gwareiddiad, a'u meithrin i fod yn bobl ifanc galonnog, oherwydd eu bod nhw'n sicr o le gwerthfawr yng nghymdeithas.

Ni fûm yn gynnil o gwbl heno. Rwyf newydd nodi'r amlwg. Ond rwy'n sicr y byddai'r mwyafrif o broblemau rhwng pobl ifanc a chymdeithas yn diflannu pe baem ni'n rhoi mwy o sylw i'r amlwg. Mae gan ein hieuenctid heddiw, gyfoeth aruthrol o iechyd, nerth a gallu. Dim ond bygythiad ydyw os ydym yn ei lesteirio. Yn lle hynny, mae'n rhaid i ni ddysgu cydweithredu. Yr wyf wedi ceisio gosod o'ch blaenau, rhai o'r ffactorau hynny y mae cydweithredu llwyddiannus yn ddibynnol arnynt. Gobeithiaf fod y thema yn briodol ar gyfer yr achlysur hwn, gan ein bod ni yma yn coffáu bywyd o ymroddiad i les pob ifanc. Cafodd yr ymroddiad hwn ei wreiddio drwy gredu yn yr ifanc. Fe ddylem ni efelychu hyn. Fe wnawn ni feithrin perthynas agosach o lawer gyda'n pobl ifanc os oes gennym hyder ynddynt, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.